***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 669 (Cy.62) (C.25)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 2 ac Arbedion) (Cymru) 2004

*Wedi'i wneud - - 9 Mawrth 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 181 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 2 ac Arbedion) (Cymru) 2004.

(2) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr “Deddf 1967” (“*the 1967 Act*”) yw Deddf Diwygio Cyfraith Prydlesi 1967(**2**);

ystyr “Deddf 1985” (“*the 1985 Act*”) yw Deddf Landlord a Thenant 1985(**3**);

ystyr “Deddf 1987” (“*the 1987 Act*”) yw Deddf Landlord a Thenant 1987(**4**));

ystyr “Deddf 1993” (“*the 1993 Act*”) yw Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993(**5**);

ystyr “Deddf 1996” (“*the 1996 Act*”) yw Deddf Tai 1996(**6**));

ystyr “TPL” (“*LVT*”) yw tribiwnlys prisio lesddaliadau;

mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni, oni nodir yn wahanol, yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 ac Atodlenni iddi; ac

mae unrhyw gyfeiriad at ddiddymiad yn gyfeiriad at ddiddymiad a wneir gan adran 180 ac Atodlen 14.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

---

(**1**) 2002 p.15.
(**2**) 1967 p.88.
(**3**) 1985 p.70.
(**4**) 1987 p.31.
(**5**) 1993 p.28.
(**6**) 1996 p.52.

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar 30 Mawrth 2004**

**2.** Daw darpariaethau canlynol i rym ar 30 Mawrth 2004 —

(a) adrannau 71 i 73, 75 i 77, 79, 81 i 83 , 85 i 91, 93 i 103, 105 i 109, 111 i 113, 159, 163, 173, Atodlenni 6 a 7;

(b) adrannau 74, 78, 80, 84, 92, 110, 174 ac Atodlen 12 i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym; ac

(c) yn ddarostyngedig i'r arbedion yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn —

(i) adrannau 148, 149, 150, 155, 157 i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraffau 8 i 13 o Atodlen 10, 158, 175, 176 i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraffau 1 i 15 o Atodlen 13, Atodlen 9, paragraffau 8 i 13 o Atodlen 10, Atodlen 11 a pharagraffau 1 i 15 o Atodlen 13;

(ii) is-adrannau (1) i (5) o adran 172 ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â chymhwyso i'r Goron adrannau 152 i 154, 164 i 171, paragraffau 1 i 7 o Atodlen 10 a pharagraff 16 o Atodlen 13;

(iii) is-adran (6) o adran 172 ac eithrio i'r graddau y mae'r amnewidiadau a wnaed gan yr is-adran honno'n ymwneud ag adrannau 42A a 42B o Ddeddf 1987;

(iv) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 180 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r diddymiadau yn Atodlen 14 a nodir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn;

(ch) yn ddarostyngedig i is-baragraffau (i) i (vi), adran 151 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym —

(i) mewn perthynas ag unrhyw achos y mae is-baragraff (ii), (iii), (iv) neu (vi) yn gymwys iddo, ni fydd unrhyw effaith i'r diwygiad a wnaed gan adran 151 a bydd Gorchymyn Taliadau Gwasanaeth (Amcangyfrifon ac Ymgynghori) 1988(**7**) yn parhau'n gymwys;

(ii) mae'r is-baragraff hwn yn gymwys lle mae'r gwaith sydd yn gymwys wedi dechrau cyn 31 Mawrth 2004;

(iii) mae'r is-baragraff hwn yn gymwys lle mae'r landlord wedi rhoi neu arddangos yr hysbysiad angenrheidiol o dan adran 20 o Deddf 1985, mewn perthynas â gwaith sydd yn gymwys, cyn 31 Mawrth 2004;

(iv) mae'r is-baragraff hwn yn gymwys lle, mewn perthynas â gwaith sydd yn gymwys y mae is-baragraff (v) yn gymwys iddo, mae'r landlord wedi rhoi hysbysiad yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd yn unol â Rheoliadau Contractau Gweithfeydd Cyhoeddus 1991(**8**), Rheoliadau Contractau Gwasanaethau Cyhoeddus 1993(**9**) neu Reoliadau Contractau Cyflenwi Cyhoeddus 1995(**10**) cyn 31 Mawrth 2004;

(v) mae'r is-baragraff hwn yn gymwys i waith sydd yn gymwys a wneir o dan gontract —

(a) y bwriedir ei wneud ar neu ar ôl 31 Mawrth 2004; ac

(b) sydd am gyfnod o ddeuddeg mis neu'n llai;

(vi) mae'r is-baragraff hwn yn gymwys lle, o dan gytundeb a wneir gan neu ar ran landlord neu uwch landlord, cyn 31 Mawrth 2004, mae gwaith sydd yn gymwys yn cael ei wneud ar unrhyw amser yn y cyfnod yn dechrau ar y dyddiad hwnnw ac yn dod i ben ddau fis ar ôl y dyddiad hwnnw.

(**7**) O.S. 1988/1285.
(**8**) O.S. 1991/2680, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn gymwys i'r Rheoliadau hyn.
(**9**) O.S. 1993/3228, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn gymwys i'r Gorchymyn hwn.
(**10**) O.S. 1995/201, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn gymwys i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**11**))

*John Marek*
9 Mawrth 2004 Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**11**) 1998 p.38.

ATODLEN 1 Erthygl 2(c)(iv)

DIDDYMIADAU

# RHAN 1

## TRIBIWNLYSOEDD PRISIO PRYDLESI

| *Teitl byr a phennod* | *Hyd a lled y diddymiad* |
|---|---|
| Deddf Diwygio Cyfraith Prydlesi 1967 (p. 88) | Adran 21(1A) a (3) i (4A). |
| Deddf Tai 1980 (p. 51) | Yn adran 142—<br>is-adran (2), ac<br>yn is-adran (3), y geiriau o'r dechrau i "and".<br><br>Yn Atodlen 22—<br>Rhan 1, ac yn Rhan 2, paragraff 8(4) i (6). |
| Deddf Landlord a Thenant, 1985 (p. 70) | Adrannau 31A i 31C.<br><br>Yn yr Atodlen, paragraff 8(5). |
| Deddf Landlord a Thenant 1987 (p.31) | Adran 23(2).<br><br>Adrannau 24A a 24B.<br><br>Yn adran 38, yn y nodyn ochr, y geiriau "by the court".<br><br>Adran 52A<br><br>Yn adran 53(2), y geiriau "under section 52A(3) or". |
| Deddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992 (p. 53) | Yn Atodlen 3, paragraff 13. |
| Deddf Diwygio Cyfraith Prydlesi, Tai a Datblygu Trefol 1993 (p. 28) | Adran 75(4) a (5)<br><br>Yn adran 88—<br>yn is-adran (2)(b), y geiriau "constituted for the purposes of that Part of that Act", a<br>is-adrannau (3) i (5) a (7). |
| Deddf Diwygio Cyfraith Prydlesi, Tai a Datblygu Trefol 1993 | Yn adran 91—<br>yn is-adran (1), y geiriau o'r dechrau i "this section; and",<br>is-adrannau (3) i (8),<br>is-adran (10), ac<br>yn is-adran (11), y geiriau o "and the reference" i'r diwedd. |

| *Teitl byr a phennod* | *Hyd a lled y diddymiad* |
|---|---|
| | Yn adran 94, yn is-adran (10), y geiriau o "and references in this subsection" i'r diwedd.<br><br>Yn adran 101(1), y diffiniad o "rent assessment committee". |
| Deddf Tai 1996 (p. 52) | Adran 83(3).<br><br>Adran 86(4) a (5).<br><br>Adran 119.<br><br>Yn Atodlen 6, yn Rhan 4, paragraffau 7 ac 8. |

# RHAN 2

## DIDDYMIADAU ERAILL

| *Teitl byr a phennod* | *Hyd a lled y diddymiad* |
|---|---|
| Deddf Landlord a Thenant 1985 (p. 70) | Adran 19(2A) i (3).<br><br>Yn adran 39, y cofnod sy'n cyfeirio at yr ymadrodd "flat".<br><br>Yn yr Atodlen—<br>yn y pennawd cyn paragraff 2, y geiriau "Request for",<br>yn y pennawd cyn paragraff 4, y geiriau "Request relating to",<br>yn y pennawd cyn paragraff 5, y geiriau "on request". |
| Deddf Landlord a Thenant 1987 (p. 31) | Yn adran 29(2)(a), y geiriau "repair, maintenance, insurance or".<br><br>Adran 56(2).<br><br>Yn Atodlen 2, paragraffau 3 a 7 |
| Deddf Tai 1996 (p.52) | Adran 83(1).<br><br>Yn Atodlen 9, paragraff 2(3) a (7). |

ATODLEN 2 Erthygl 2(c)

## ARBEDION

### Landlordiad absennol — tai lesddaliad

**1.** Ni chaiff y diwygiadau a wnaed gan adrannau 148 a 149 effaith mewn perthynas â chais am ryddfreinio a wneir o dan adran 27 o Ddeddf 1967 cyn 31 Mawrth 2004.

### Diffiniad o daliadau gwasanaethau

**2.** Ni fydd y diwygiad a wnaed gan baragraff 7 o Atodlen 9 yn gymwys i gostau a dynnir cyn 31 Mawrth 2004 mewn cysylltiad â materion y codir tâl gwasanaethau ar eu cyfer.

### Ystyr "management" yn adran 24 o Ddeddf 1987

**3.** Ni fydd y diwygiad a wnaed gan baragraff 8 o Atodlen 9 yn gymwys i gais a wneir o dan adran 24 o Ddeddf 1987 cyn 31 Mawrth 2004.

### Yr hawl i gaffael buddiant y landlord

**4.** Ni fydd y diwygiad a wnaed gan baragraff 9 o Atodlen 9 a'r diddymiad yn adran 29 o Ddeddf 1987 yn gymwys i gais a wneir o dan adran 29 o'r Ddeddf honno cyn 31 Mawrth 2004.

### Hawl tenant i gael archwiliad rheoli

**5.** Ni fydd y diwygiadau a wnaed gan baragraff 10 o Atodlen 9 yn gymwys i gais a wneir o dan adran 80 o Ddeddf 1993 cyn 31 Mawrth 2004.

### Rhwymedigaeth i dalu taliadau gwasanaethau

**6.** Ni fydd effaith i'r diwygiad a wnaed gan adran 155 a diddymiadau adran 19(2A) i (3) o Deddf 1985 ac o adran 83(1) o Ddeddf 1996 mewn perthynas ag —

(a) unrhyw gais a wneir i TPL o dan adran 19(2A) neu (2B) o Deddf 1985; neu

(b) unrhyw achos sy'n ymwneud â thaliad gwasanaethau a drosglwyddir i TPL gan lys sirol,

cyn 31 Mawrth 2004.

### Yswiriant

**7.** Ni fydd y diwygiadau a wnaed gan baragraffau 8 i 13 o Atodlen 10 a'r diddymiadau canlyniadol yn yr Atodlen i Deddf 1985 yn gymwys i gais a wneir o dan yr Atodlen honno cyn 31 Mawrth 2004.

### Taliadau gweinyddol: rhesymoldeb, galwadau ac atebolrwydd i dalu

**8.** Ni fydd paragraffau 2 i 5 o Atodlen 11 yn gymwys i dâl gweinyddol a oedd yn daladwy cyn 31 Mawrth 2004.

### Taliadau gweinyddol: penodi rheolwr

**9.** Ni fydd y diwygiadau a wnaed gan baragraff 8 o Atodlen 11 yn gymwys i gais a wneir o dan adran 24 o Ddeddf 1987 cyn 31 Mawrth 2004.

### Taliadau o dan gynlluniau rheoli ystadau

**10.** Ni fydd Adran 159 yn gymwys i daliad o dan gynllun rheoli ystad a oedd yn daladwy cyn 31 Mawrth 2004.

### Amrywio prydlesi: trosglwyddo awdurdodaeth

**11.** Ni chaiff y diwygiadau a wnaed gan adran 163 effaith mewn perthynas â chais a wneir i'r llys o dan Ran 4 o Ddeddf 1897 cyn 31 Mawrth 2004.

### Tir y Goron: amrywio prydlesi

**12.** Ni fydd amrywiad unrhyw denantiaeth a wneir gan orchymyn neu yn unol â gorchymyn a wnaed cyn 31 Mawrth 2004 o dan adran 38 o Ddeddf 1987 yn cael ei drin fel un sy'n rhwymo'r Goron, fel rhagflaenydd yn y teitl o dan y denantiaeth, yn rhinwedd adran 39(1) o'r Ddeddf honno.

### Tribiwnlysoedd prisio prydlesi

**13.** Ni fydd effaith i Adran 175, y diwygiadau a wnaed gan adran 176 ac Atodlen 13 a'r diddymiadau yn Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn mewn perthynas ag —

(a) unrhyw gais a wneir i TPL; neu

(b) unrhyw achosion a drosglwyddir i TPL gan gyngor sir,

cyn 31 Mawrth 2004.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi grym i ddapariaethau amrywiol Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 ("Deddf 2002") mewn perthynas â Chymru.

Yn ddarostyngedig i'r arbedion yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn, daw'r darpariaethau a grybwyllir yn erthygl 2(a) i (c) i rym ar 30 Mawrth 2004. Maent yn cynnwys:

(a) hawl newydd i lesddeiliaid hir fflatiau gyd-reoli eu hadeilad yn ddarostyngedig i gydymffurfio â rhai rheolau cymhwyso (adrannau 71 i 113);

(b) newidiadau i'r diffiniad o daliadau gwasanaethau a'r hawl i herio'r taliadau hynny (adrannau 150 a 155);

(c) newidiadau i'r darpariaethau sy'n ymnweud â cheisiadau am wybodaeth yswiriant gan y landlord (adran 157);

(ch) yr hawl i herio taliadau eraill o dan brydlesi a thaliadau mewn perthynas â chynlluniau rheoli ystadau (adrannau 158 a 159);

(d) cymhwyso darpariaethau amrywiol landlord a thenant i dir y Goron (adran 172);

(dd) ymestyn awdurdodaeth tribiwnlysoedd prisio prydlesi a chydgrynhoi'r darpariaethau sy'n ymwneud â'u gweithdrefn (adrannau 163 a 173 i 176); ac

(e) diwygiadau a diddymiadau canlyniadol a wnaed gan Ddeddf 2002 mewn Deddfau eraill.

Yn ddarostyngedig i'r arbedion yn erthygl 2(d), daw adran 151 o Ddeddf 2002 i rym hefyd ar 30 Mawrth 2004. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer gofynion ymgynghori newydd mewn perthynas â thaliadau gwasanaethau.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae darpariaethau canlynol Deddf 2002 wedi'u dwyn i rym mewn perthynas â Chymru trwy Orchymyn Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| a.74 (yn rhannol) | 1 Ionawr 2003 | 2002/3012 (Cy.284) |
| a.78 (yn rhannol) | | |
| a.80 (yn rhannol) | | |
| a.84 (yn rhannol) | | |
| a.92 (yn rhannol) | | |
| a.110 (yn rhannol) | | |
| aa.114 i 120 | | |
| a.122 (yn rhannol) | | |
| a.125 | | |
| a.127 i 147 | | |
| aa.151 i 153 (yn rhannol) | | |
| a.156 (yn rhannol) | | |
| a.160 i 162 | | |
| a.164 (yn rhannol) | | |
| a.166 (yn rhannol) | | |
| a.167 (yn rhannol) | | |
| a.171 (yn rhannol) | | |
| a.174 (yn rhannol) | | |
| a.180 (yn rhannol) | | |
| Atodlen 12 (yn rhannol) | | |
| Atodlen 14 (yn rhannol) | | |